***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 3220 (Cy.276)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *7 Rhagfyr 2004* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Rhagfyr 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(2), 18(1), (26)(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**) ac wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar faterion diogelwch bwyd(**3**) ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** O ran y Rheoliadau hyn —

(a) eu henw yw Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004;

(b) deuant i rym ar 17 Rhagfyr 2004; ac

(c) maent yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr â "*food authority*" yn adran 5(1A) a (3)(a) a (b) yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "darpariaeth Gymunedol benodedig" ("*specified Community provision*") yw darpariaeth yn Rheoliad 1829/2003 a bennir yng Ngholofn 1 ac a ddisgrifir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990; ac

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

ystyr "Rheoliad 1829/2003" ("*Regulation 1829/2003*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cygngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig(**4**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

(a) mae unrhyw gyfeiriad at erthygl â Rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn Rheoliad 1829/2003;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(c) mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn

(3) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad 1829/2003.

### Cyflwyno ceisiadau am awdurdodiad i farchnata cynhyrchion

**3.** Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cenedlaethol cymwys at ddibenion Pennod II o Reoliad 1829/2003(**5**).

### Gorfodi

**4.** Mae pob awdurdod bwyd, o fewn ei ardal, i orfodi a gweithredu darpariaethau'r Rheoliadau hyn a darpariaethau Pennod II o Reoliad 1829/2003.

### Tramgwyddau a Chosbau

**5.**—(1) Mae unrhyw berson sydd yn mynd yn groes i'r ddarpariaeth Gymunedol benodedig y cyfeirir ati yn Rhan I o'r Atodlen neu'n methu â chydymffurfio â hi yn euog o dramgwydd ac yn agored —

(a) ar gollfarn ddiannod i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol; neu

(b) ar gollfarn ar dditiad i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd neu ddirwy neu'r ddau.

(2) Mae unrhyw berson sydd yn mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol penodedig y cyfeirir atynt yn Rhan II o'r Atodlen, neu'n methu â chydymffurfio â hi, yn euog o dramgwydd ac yn agored, ar gollfarn ddiannod, i garchariad nad yw'n fwy na chwe mis neu i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu i'r ddau.

### Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf

**6.**—(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003 fel y maent yn gymwys at ddibenion y Ddeddf —

(a) Adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl);

(b) Adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) Adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf honno;

(ch) Adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yn ystod busnes);

(d) Adran 30(8) (sy'n ymwned â thystiolaeth ddogfennol)

(dd) Adran 33(1) (rhwystro, etc swyddogion);

(**4**) OJ Rhif L268, 18.10.03, t.1.

(**5**) Ei chyfeiriad yng Nghymru yw Llawr 11 , Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

(e) Adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);

(f) Adran 35(1) (cosbi tramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);

(ff) Adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);

(g) Adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(ng) Adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll); a

(h) Adran 50 (cyflwyno dogfennau).

(2) Mae adran 34 (terfyn amser i erlyniadau) yn gymwys i dramgwyddau o dan reoliad 5 fel y mae'n gymwys i dramgwyddau y gellir eu cosbi o dan adran 35(2) o'r Ddeddf.

**Arolygu, cadw ac atafaelu bwyd sydd o dan amheuaeth**

**7.**—(1) Mae adran 8(3) o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn fel petai'n darllen fel a ganlyn —

> “(3) Where any food which fails to comply with a specified Community provision within the meaning of the Genetically Modified Food (Wales) Regulations 2004 is part of a batch, lot or consignment of food of the same class or description, it is to be presumed for the purposes of section 9 as applied by those Regulations until the contrary is proved, that all of the food in that batch, lot or consignment fails to comply with that specified Community provision.”

(2) Mae adran 9 o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn fel petai'n darllen fel a ganlyn —

> “**9.**—(1) An authorised officer of a food authority may at all reasonable times inspect any food intended for human consumption which —
>
> (a) has been placed on the market; or
>
> (b) is in possession of, or has been deposited with or consigned to, any person for the purpose of placing it on the market;
>
> and subsections (2) to (9) below apply where it appears to the authorised officer, taking account of all the information available to him, that the placing on the market of any food fails to comply with a specified Community provision.
>
> (2) The authorised officer may either —
>
> (a) give notice to the person in charge of the food that, until the notice is withdrawn, the food or any specified portion of it —
>
> (i) is not to be used for human consumption; and
>
> (ii) either is not to be removed or is not to be removed except to some place specified in the notice; or
>
> (b) seize the food and remove it in order to have it dealt with by a justice of the peace;
>
> and any person who knowingly contravenes the requirements of a notice under paragraph (a) above is guilty of an offence.
>
> (3) Where the authorised officer exercises the powers conferred by subsection (2)(a) above, he or she is, as soon as is reasonably practicable and in any event within 21 days, to determine whether or not he or she is satisfied that the food complies with the specified Community provisions and —